Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 1212 (Cy. 303)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1546 (Cy. 144)) ("y Rheoliadau Hysbysu"), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595 (Cy. 136)) ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y Rheoliadau Cyfyngiadau").

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofynion i archebu a chymryd profion am y coronafeirws yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn gwneud darpariaethau penodol ar gyfer "teithwyr rheoliad 2A"; gan gynnwys unigolion sydd wedi eu brechu'n llawn mewn gwledydd a thiriogaethau rhagnodedig.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan estyn y gydnabyddiaeth o frechiadau i ragor o wledydd a thiriogaethau.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 6AB (gofyniad i archebu a chymryd profion) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn galluogi teithwyr rheoliad 2A i ddefnyddio profion dyfais llif unffordd ("LFD") at ddibenion y Rheoliadau.

Mae rheoliad 6 yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd prawf adwaith cadwynol polymerasau ("PCR") cadarnhau pan fo'n cael canlyniad prawf positif ar brawf LFD, yn ogystal â chynnwys darpariaeth ar ofynion ynysu yn dilyn canlyniadau positif.

Mae rheoliad 8 yn cyflwyno trosedd am fethu â chymryd prawf PCR cadarnhau.

Mae rheoliadau 5, 7 i 9, ac 11 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chyflwyno profion LFD.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Atodlen 1 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddileu'r gofyniad i deithwyr restru eu rhifau sedd ar Ffurflenni Lleoli Teithwyr.

Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 12 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A er mwyn dileu amrywiol wledydd o'r rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae rheoliad 12E yn gymwys iddynt.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Hysbysu, o ganlyniad i gyflwyno profion LFD yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i sicrhau yr hysbysir Iechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniadau profion.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig i deithwyr. Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, o ganlyniad i'r diwygiadau o ran Ffurflenni Lleoli Teithwyr a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rheoliad 10.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 16A(12) o'r Rheoliadau Cyfyngiadau, gan estyn ymhellach y rhestr o wledydd a thiriogaethau yn y paragraff hwnnw fel bod tystiolaeth o frechu yn y gwledydd hynny â brechlynnau sydd wedi eu hawdurdodi yn y Deyrnas Unedig hefyd yn dderbyniol at ddibenion yr hyn a adwaenir yn gyffredin fel y pàs COVID. Mae angen y diwygiad er mwyn cynnal cysondeb â rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 1212 (Cy. 303)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

*Gwnaed am 4.25 p.m. ar 29 Hydref 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 6.30 p.m. ar 29 Hydref 2021*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wneir gan reoliad 18 o'r Rheoliadau hyn, yn unol ag adran 45Q(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r offeryn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf sy'n gosod neu'n galluogi

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

## RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliadau 3, 12 a 18, i rym am 4.00 a.m. ar 31 Hydref 2021.

(3) Daw rheoliadau 3, 12 a 18 i rym am 4.00 a.m. ar 1 Tachwedd 2021.

## RHAN 2

## Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

**Diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

**2.** Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2020/1602 (Cy. 332), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/24 (Cy. 8), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/48 (Cy. 11), O.S. 2021/50 (Cy. 12), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/154 (Cy. 38), O.S. 2021/305 (Cy. 78), O.S. 2021/361 (Cy. 110), O.S. 2021/454 (Cy. 144), O.S. 2021/500 (Cy. 149), O.S. 2021/568 (Cy. 156), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/669 (Cy. 170), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/826 (Cy. 193), O.S. 2021/863 (Cy. 202), O.S. 2021/867 (Cy. 203), O.S. 2021/915 (Cy. 208), O.S. 2021/926 (Cy. 211), O.S. 2021/967 (Cy.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiadau i reoliad 2A**

**3.**—(1) Mae rheoliad 12 (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (10) yn y diffiniad o "brechlyn awdurdodedig", yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) mewn perthynas â dosau a geir mewn unrhyw wlad neu diriogaeth arall (gan gynnwys gwlad berthnasol a restrir ym mharagraff (12)), a fyddai'n awdurdodedig fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (a)(i) neu (ii) pe bai'r dosau wedi eu cael yn y Deyrnas Unedig;".

(3) Ym mharagraff (12) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Angola"

"Anguilla"

"Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus"

"Yr Ariannin"

"Armenia"

"Azerbaijan"

"Belize"

"Bermuda"

"Botswana"

"Cambodia"

"Costa Rica"

"De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De"

"Djibouti"

"Eswatini"

"Gibraltar"

"Guernsey"

"Guyana"

"Honduras"

"Jersey"

"Lesotho"

"Libanus"

"Madagascar"

"Mauritius"

"Mongolia"

"Montserrat"

"Nepal"

---

227), O.S. 2021/1063 (Cy. 250), O.S. 2021/1109 (Cy. 265) ac O.S. 2021/1126 (Cy. 273).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"Panama"

"Periw"

"Rwanda"

"Seychelles"

"Sierra Leone"

"Sri Lanka"

"St Helena, Ascension a Tristan da Cunha"

"Suriname"

"Tanzania"

"Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig"

"Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India"

"Tiriogaethau Meddianedig Palesteina"

"Trinidad a Tobago"

"Tunisia"

"Uganda"

"Uruguay"

"Ynys Manaw"

"Ynysoedd Cayman"

"Ynysoedd Falkland"

"Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno"

"Ynysoedd Prydeinig y Wyryf"

"Ynysoedd Turks a Caicos".

**Diwygiadau i reoliad 6AB**

**4.**—(1) Mae rheoliad 6AB (gofyniad i archebu a chymryd profion) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (2)(a) rhodder—

"(a) "prawf diwrnod 2"—

(i) mewn cysylltiad â pherson nad yw rheoliad 2A yn gymwys iddo, yw prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 1 o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o'r Atodlen honno;

(ii) mewn cysylltiad â theithiwr rheoliad 2A, yw—

(aa) prawf a ddisgrifir yn is-baragraff (i), neu

(bb) prawf sy'n cydymffurfio â pharagraff 1ZB o Atodlen 1C sy'n cael ei gymryd o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A o'r Atodlen honno;".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygiadau i reoliad 6DB**

**5.**—(1) Mae rheoliad 6DB (gofyniad i ynysu o fethu â chymryd profion: teithwyr o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr rheoliad 2A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd, hepgorer "o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr".

(3) Yn lle is-baragraff (1) rhodder—

> "(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i deithiwr rheoliad 2A ("P") y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo."

(4) Ym mharagraff (5)(a), yn lle "ym mharagraff 1 o Atodlen 1C" rhodder "yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)".

**Amnewid rheoliad 6E**

**6.** Yn lle rheoliad 6E (goblygiadau canlyniad prawf positif) rhodder—

> "**Goblygiadau canlyniad prawf positif**
>
> **6E.**—(1) Pan fo prawf a gymerir gan berson ("P") yn unol â rheoliad 6AB yn bositif ac—
>
> (a) bo P yn berson y mae rheoliad 7(1) neu 8(1) yn gymwys iddo, mae paragraffau (2) a (7) yn gymwys;
>
> (b) bo P yn deithiwr rheoliad 2A—
>
> (i) pan fo'r prawf yn brawf PCR diwrnod 2, mae paragraffau (3) a (7) yn gymwys;
>
> (ii) pan fo'r prawf yn brawf LFD diwrnod 2, mae paragraffau (4), (5) a (7) yn gymwys.
>
> (2) Diwrnod ynysu olaf P o dan reoliad 7 neu 8 yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf (ac nid yw rheoliad 12 yn gymwys at ddibenion pennu diwrnod ynysu olaf P).
>
> (3) Mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan ddiwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf.
>
> (4) Rhaid i P, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd prawf cadarnhau a ddarperir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwn.
>
> (5) Mae P i'w drin fel pe bai gofynion rheoliad 7 yn gymwys a rhaid i P ynysu a pharhau i ynysu yn unol â'r rheoliad hwnnw tan y cynharaf o'r canlynol—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cymerodd P y prawf LFD diwrnod 2;

(b) yr adeg yr hysbysir P bod canlyniad y prawf cadarnhau a gymerwyd yn unol â pharagraff (4) yn negyddol.

(6) Yn y rheoliad hwn, bernir bod person yn cael hysbysiad o ganlyniad mewn perthynas â phrawf LFD diwrnod 2 pan fydd y person yn penderfynu ar y canlyniad yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio gweithgynhyrchydd y prawf.

(7) Nid yw rheoliad 10(3) (gofyniad i ynysu yn peidio â bod yn gymwys i P pan fydd P yn gadael Cymru) o'r Rheoliadau hyn ac, yn ddarostyngedig i reoliad 6I, rheoliad 6 neu 7, fel y bo'n briodol, o'r Rheoliadau Cyfyngiadau Coronafeirws yn gymwys mewn perthynas â P.

(8) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "prawf LFD diwrnod 2" yw prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb);

ystyr "prawf PCR diwrnod 2" yw prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(aa)."

**Diwygiadau i reoliad 6HB**

**7.**—(1) Mae rheoliad 6HB (goblygiadau cael canlyniad prawf amhendant: teithwyr o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr rheoliad 2A) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y pennawd, hepgorer "o wledydd a thiriogaethau esempt a theithwyr".

(3) Yn lle is-baragraff (1) rhodder—

"(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i deithiwr rheoliad 2A ("P") y mae rheoliad 6AB(1) yn gymwys iddo."

(4) Ym mharagraff (5)(a), yn lle "ym mharagraff 1 o Atodlen 1C" rhodder "yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)".

**Diwygiadau i reoliad 14**

**8.**—(1) Mae rheoliad 14 (troseddau) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (1)(h) mewnosoder—

"(ha) 6E(4);".

(3) Ym mharagraff (1D), ar ôl "6AB" mewnosoder "neu 6E(4)".

**Diwygiadau i reoliad 16**

**9.** Yn rheoliad 16(6AB) (hysbysiadau cosb benodedig)—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn y geiriau agoriadol, ar ôl “rheoliad 14(1)(h)” mewnosoder “neu (ha)”;

(b) yn is-baragraff (b), ar ôl “6AB(7)” mewnosoder “neu 6E(4)”;

(c) yn is-baragraff (c), ar ôl “6AB(7)” mewnosoder “neu 6E(4)”.

**Diwygiadau i Atodlen 1**

**10.** Ym mharagraff 2 o Atodlen 1 (gwybodaeth am deithiwr), hepgorer is-baragraffau (e) a (k)(iv).

**Diwygiadau i Atodlen 1C**

**11.**—(1) Mae Atodlen 1C (profi mandadol ar ôl cyrraedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff 1ZA mewnosoder—

**“Profion diwrnod 2: gofynion cyffredinol ar gyfer profion dyfais llif unffordd**

**1ZB.**—(1) Mae prawf diwrnod 2 yn cydymffurfio â’r paragraff hwn pan fo’r prawf yn cydymffurfio ag is-baragraff (2) a phan fo—

(a) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf cyhoeddus; neu

(b) yn brawf a ddarperir gan ddarparwr prawf preifat pan fo’r darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â pharagraff 1ZC.

(2) Mae prawf yn cydymffurfio â’r is-baragraff hwn—

(a) pan fo’n brawf ar gyfer canfod y coronafeirws sy’n defnyddio un neu ragor o’r canlynol—

(i) swabio’r trwyn yn y cogwrn canol neu ym mlaen y ffroenau;

(ii) swabio’r tonsiliau;

(iii) poer;

(b) pan fo modd ei adnabod yn unigryw;

(c) pan fo wedi ei ddarparu yn unol â chyfarwyddiadau defnyddio gweithgynhyrchydd y prawf, gan gynnwys, yn benodol, cyfarwyddiadau o ran y defnydd targed, y defnyddiwr targed a gosodiadau’r defnydd targed; a

(d) pan fo unrhyw ddyfais a ddefnyddir at ddibenion y prawf yn gallu cael ei defnyddio yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

2002(1), ac eithrio yn rhinwedd rheoliad 39(2) o'r Rheoliadau hynny yn unig.

**Profion diwrnod 2: gofynion darparwr prawf preifat ar gyfer profion dyfais llif unffordd**

**1ZC.**—(1) Mae darparwr prawf preifat yn cydymffurfio â'r paragraff hwn—

(a) pan fo'n cydymffurfio â gofynion paragraff 1ZA(1)(a) i (e) ac (h);

(b) pan fo wedi gwneud datganiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer profion a ddarperir gan y sector preifat a gyhoeddwyd ar gov.uk/guidance/day-2-lateral-flow-tests-for-international-arrivals-minimum-standards-for-providers ar 21 Hydref 2021 a bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cadarnhau yn ysgrifenedig ei fod yn ystyried bod y darparwr yn bodloni'r safonau hynny;

(c) pan fo'n parhau i fodloni'r safonau gofynnol y mae'r datganiad a grybwyllir ym mharagraff (b) yn ymwneud â hwy;

(d) pan fo wedi darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol restr o'r holl sefydliadau y mae'n gweithio gyda hwy (boed drwy is-gontract neu fel arall) i gynnal y gwasanaeth profi, gan nodi natur y gwasanaeth y mae pob sefydliad yn ei ddarparu, ac wedi diweddaru'r rhestr honno fel y bo'n briodol;

(e) pan fo'n cael yr wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 6AB(5), ac os yw'n gweinyddu'r prawf i P, ei fod yn gwneud hynny heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru;

(f) pan fo ganddo system ar waith i wrthod canlyniadau gan ddyfeisiau a ddefnyddiwyd yn flaenorol;

(g) pan fo, bob dydd, yn hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig—

(i) am nifer y profion y mae wedi eu gwerthu ar y diwrnod hwnnw, a

(ii) mewn perthynas â phob prawf a werthwyd ar y diwrnod hwnnw—

(1) O.S. 2002/618.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(aa) am y dyddiad y cyrhaeddodd y person y gwerthwyd y prawf mewn cysylltiad ag ef y Deyrnas Unedig,

(bb) a yw'n brawf adwaith cadwynol polymerasau neu'n brawf dyfais llif unffordd, ac

(cc) am y cyfeirnod prawf a roddwyd i P yn unol â rheoliad 6AB(6);

(iii) mewn perthynas â phob prawf y canslwyd ei bryniant ar y diwrnod hwnnw, yr wybodaeth a nodir yn is-baragraff (ii)(aa) i (cc);

(h) os yw'n trefnu gyda pherson arall ("X") i X gyflawni unrhyw elfen o'r un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd ar ei ran, pan fo'r darparwr prawf yn sicrhau bod X yn cydymffurfio â'r canlynol i'r graddau y maent yn berthnasol i gyflawni'r elfen honno—

(i) paragraff 1ZA(1)(b) i (e) ac (h) fel y'i cymhwysir gan baragraff (a) o'r is-baragraff hwn;

(ii) paragraff (c) i (g) o'r is-baragraff hwn;

(iii) paragraff 2D(2) a (4).

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(h), ystyr "un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd" yw gwasanaeth sy'n cwmpasu unrhyw un neu ragor o'r elfennau a ganlyn pan fônt yn rhan o'r gwasanaeth a gynigir gan y darparwr prawf—

(a) derbyn yr archeb gan y person sydd i'w brofi;

(b) darparu'r prawf;

(c) casglu a phrosesu'r prawf wedi iddo gael ei gymryd;

(d) dadansoddi'r prawf;

(e) gwirio canlyniad y prawf;

(f) darparu hysbysiad o ganlyniad y prawf.
"

(3) Yn lle paragraff (1A) rhodder—

"**1A.** Yr amgylchiadau a grybwyllir yn rheoliad 6AB(2)(a) yw—

(a) bod P yn cymryd prawf diwrnod 2 heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail ddiwrnod ar ôl y diwrnod y cyrhaeddodd P Gymru, a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) mewn perthynas â phrawf a ddisgrifir yn rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) nad yw wedi ei weinyddu gan ddarparwr prawf, fod P yn darparu i'r darparwr prawf yr wybodaeth a ganlyn o fewn 15 munud i amser darllen y prawf fel y'i pennir gan gyfarwyddiadau defnyddio y gweithgynhyrchydd—

(i) tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos yn glir—

(aa) y ddyfais brofi yn y fath fodd fel y gellir ei hadnabod fel un sydd wedi ei darparu gan y darparwr prawf,

(bb) cyfeirnod y prawf a roddwyd yn unol â rheoliad 6AB(6), ac

(cc) canlyniad y prawf, a

(ii) y cyfeiriad y gall P gael prawf cadarnhau ynddo yn unol â rheoliad 6E(4)."

(4) Ar ôl paragraff 2C mewnosoder—

**"Hysbysu am ganlyniadau profion: profion dyfais llif unffordd**

**2D.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i ddarparwr prawf preifat sy'n gweinyddu neu'n darparu prawf o fewn ystyr rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) i P o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 1A.

(2) Rhaid i'r darparwr prawf preifat, o fewn 24 awr i'r digwyddiad perthnasol—

(a) hysbysu P a, phan fo'n gymwys, unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy e-bost, llythyr neu neges destun, am ganlyniad prawf P, neu

(b) peri bod canlyniad prawf P ar gael i P a, phan fo'n gymwys, i unrhyw berson sy'n trefnu'r prawf ar ran P, drwy borthol diogel ar y we,

yn unol ag is-baragraff (4).

(3) Ym mharagraff (2), ystyr "digwyddiad perthnasol" yw—

(a) pan weinyddodd y darparwr prawf y prawf, yr adeg y penderfynodd y darparwr prawf ar ganlyniadau'r prawf;

(b) pan na weinyddodd y darparwr prawf y prawf, yr adeg y cafodd y darparwr prawf yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu gan baragraff 1A(b).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(4) Rhaid i'r hysbysiad am ganlyniad prawf P gynnwys enw, dyddiad geni, rhif pasbort, neu gyfeirnod dogfen deithio (fel y bo'n briodol) P, enw a manylion cyswllt y darparwr prawf a chyfeirnod prawf P, a rhaid ei gyfleu mewn modd sy'n hysbysu P a oedd y prawf yn negyddol, yn bositif, neu'n amhendant."

(5) Ym mharagraff 3(d), ar ôl "ystyr "un gwasanaeth profi o'r dechrau i'r diwedd"", mewnosoder ", ac eithrio ym mharagraff 1ZC(1)(h),".

**Diwygiadau i Atodlen 3A**

**12.** Yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) hepgorer—

"Colombia"

"Ecuador"

"Gweriniaeth Dominica"

"Haiti"

"Panama"

"Periw"

"Venezuela".

# RHAN 3

## Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010**

**13.** Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygiadau i reoliad 4A**

**14.**—(1) Mae rheoliad 4A (dyletswydd ar weithredwyr labordai diagnostig i hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am brofion SARS-CoV-2 neu firws y ffliw a brosesir) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl "SARS-CoV-2" mewnosoder ", ac eithrio prawf y mae rheoliad 4AB yn gymwys mewn perthynas ag ef,".

(3) Ym mharagraff (3)(a), ar ôl "SARS-CoV-2" mewnosoder ", ac eithrio prawf y mae rheoliad 4AB yn gymwys mewn perthynas ag ef,".

(**1**) O.S. 2010/1546 (Cy. 144), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/232 (Cy. 54) ac O.S. 2021/1063 (Cy. 250).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Mewnosod rheoliad 4AB**

(4) Ar ôl rheoliad 4A mewnosoder—

**"Dyletswydd i hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniadau profion dyfais llif unffordd a gymerir gan deithwyr cymwys**

**4AB.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo darparwr prawf yn gweinyddu neu'n darparu prawf ar gyfer canfod SARS-CoV-2 yn unol â rheoliad 6AB(2)(a)(ii)(bb) (profion dyfais llif unffordd) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(2) Rhaid i'r darparwr prawf hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniad y prawf yn unol â pharagraffau (3) i (5).

(3) Rhaid darparu hysbysiad mewn ysgrifen—

(a) pan weinyddodd y darparwr prawf y prawf, o fewn 24 awr i benderfynu ar ganlyniad y prawf;

(b) pan na weinyddodd y darparwr prawf y prawf, o fewn 24 awr i gael yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu gan baragraff 1A(b) o Atodlen 1C i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(4) Rhaid i hysbysiad gynnwys yr wybodaeth ganlynol, i'r graddau y mae'n hysbys i'r darparwr prawf—

(a) mewn perthynas â'r person a gymerodd y prawf ("P")—

(i) ei enw cyntaf;

(ii) ei gyfenw;

(iii) ei ryw;

(iv) ei ddyddiad geni;

(v) ei rif GIG;

(vi) ei ethnigrwydd;

(vii) ei gyfeiriad cartref (gan gynnwys y cod post);

(viii) y cyfeiriad a ddarperir i'r darparwr prawf fel y man lle y gall P gael prawf cadarnhau;

(ix) ei rif teleffon a'i gyfeiriad e-bost, pan fo canlyniad y prawf yn bositif neu'n amhenodol;

(b) pa un a yw P wedi cael brechlyn yn erbyn SARS-CoV-2 ai peidio;

(c) rhif pasbort P neu rif dogfen deithio P (fel y bo'n briodol);

(d) rhif coets, rhif hediad, neu enw llestr y cludiant y cyrhaeddodd P Gymru arno;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) cyfeirnod y prawf a roddwyd i P yn unol â rheoliad 6AB(6) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;

(f) y wlad neu’r diriogaeth yr oedd P yn teithio ohoni pan gyrhaeddodd P Gymru, ac unrhyw wlad neu diriogaeth y tramwyodd drwyddi fel rhan o’r daith honno;

(g) y dyddiad y cymerodd P y prawf;

(h) cadarnhad bod y prawf yn cydymffurfio â’r gofynion sy’n gymwys o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a’i fod wedi ei gymryd yn unol â hwy;

(i) cadarnhad bod y prawf yn brawf dyfais llif unffordd a gymerwyd gan deithiwr rheoliad 2A o fewn ystyr y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;

(j) pan na weinyddodd y darparwr prawf y prawf, y dyddiad a’r amser y cafodd y darparwr prawf yr wybodaeth y mae’n ofynnol ei darparu gan baragraff 1A(b) o Atodlen 1C i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol;

(k) yr wybodaeth ganlynol ynghylch y prawf—

(i) enw’r darparwr prawf a disgrifiad o’i weithrediadau;

(ii) rhif y sbesimen;

(iii) y math o sbesimen;

(iv) dyddiad y sbesimen;

(v) y dull profi;

(vi) y canlyniad;

(vii) y dyddiad y cynhaliwyd y prawf;

(viii) enw gweithgynhyrchydd y cyfarpar profi.

(5) Pan fo P yn blentyn, neu’n berson sydd ag anabledd sy’n analluog am y rheswm hwnnw i ddarparu’r wybodaeth a nodir ym mharagraff (4)(a) i’r darparwr prawf, rhaid i’r darparwr prawf ddarparu i Iechyd Cyhoeddus Cymru, i’r graddau y mae’n hysbys i’r darparwr prawf—

(a) yr wybodaeth a nodir ym mharagraff (4)(a)(i) i (viii) mewn perthynas â P, ar ôl ei chael oddi wrth riant, gwarcheidwad neu ofalwr priodol i P (“X”); a

(b) pan fo canlyniad y prawf yn bositif neu’n amhenodol, rhif teleffon a chyfeiriad e-bost X.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(6) Mae'n dramgwydd i ddarparwr prawf fethu â chydymffurfio â'r rheoliad hwn heb esgus rhesymol.

(7) Mae darparwr prawf sy'n cyflawni tramgwydd o dan y rheoliad hwn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy.

(8) Yn y rheoliad hwn, mae i "anabledd", "gofalwr", "gwarcheidwad", "Iechyd Cyhoeddus Cymru", "plentyn", "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" a "rhiant" yr ystyron a roddir yn rheoliad 4A."

**Diwygiadau i reoliad 5**

**15.**—(1) Mae rheoliad 5 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r swyddog priodol neu Iechyd Cyhoeddus Cymru) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), ar ôl "4A," mewnosoder "4AB,".

(3) Ym mharagraff (2A), ar ôl "4A(3)," mewnosoder "4AB(4),".

**Diwygiad i reoliad 7**

**16.** Yn rheoliad 7(1)(a) (cyfathrebiadau electronig), ar ôl "4A(1)," mewnosoder "4AB,".

## RHAN 4

## Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020**

**17.** Yn lle rheoliad 3A(4)(a) (darparu gwybodaeth cyn i daith ymadael) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020(**1**) rhodder—

"(a) pan ddarperir yr wybodaeth drwy neges destun neu hysbysiad gwthio, testun sydd—

(**1**) O.S. 2020/595 (Cy. 136), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/1118 (Cy. 253), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2021/72 (Cy. 18), O.S. 2021/171 (Cy. 39), O.S. 2021/457 (Cy. 145), O.S. 2021/584 (Cy. 161), O.S. 2021/646 (Cy. 166), O.S. 2021/765 (Cy. 187), O.S. 2021/863 (Cy. 202) ac O.S. 2021/1109 (Cy. 265).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) yn hysbysu P am y gofyniad i ddarparu gwybodaeth,

(ii) yn hysbysu P bod cosbau yn gymwys am fethu â chydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth,

(iii) yn cynnwys dolen i https://www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk,

(iv) yn hysbysu P am y gofyniad i feddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol yn unol â rheoliad 6A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a

(v) yn hysbysu P am y gofyniad i drefnu profion cyn cyrraedd Cymru yn unol â rheoliad 6AB o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ".

## RHAN 5

### Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**18.** Yn rheoliad 16A(12) (mesurau penodol sy'n gymwys i fangreoedd lle y darperir cerddoriaeth ar gyfer dawnsio neu lle y cynhelir digwyddiadau penodedig) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**1**), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"Angola"

"Anguilla"

"Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus"

"Yr Ariannin"

"Armenia"

(**1**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79), O.S. 2021/413 (Cy. 133), O.S. 2021/502 (Cy. 150), O.S. 2021/542 (Cy. 154), O.S. 2021/583 (Cy. 160), O.S. 2021/668 (Cy. 169), O.S. 2021/686 (Cy. 172), O.S. 2021/722 (Cy. 183), O.S. 2021/862 (Cy. 201), O.S. 2021/925 (Cy. 210), O.S. 2021/970 (Cy. 228), O.S. 2021/1119 (Cy. 271) ac O.S. 2021/1131 (Cy. 274).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

“Azerbaijan”
“Belize”
“Bermuda”
“Botswana”
“Cambodia”
“Costa Rica”
“De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De”
“Djibouti”
“Eswatini”
“Gibraltar”
“Guernsey”
“Guyana”
“Honduras”
“Jersey”
“Lesotho”
“Libanus”
“Madagascar”
“Mauritius”
“Mongolia”
“Montserrat”
“Nepal”
“Panama”
“Periw”
“Rwanda”
“Seychelles”
“Sierra Leone”
“Sri Lanka”
“St Helena, Ascension a Tristan da Cunha”
“Suriname”
“Tanzania”
“Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig”
“Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India”
“Tiriogaethau Meddianedig Palesteina”
“Trinidad a Tobago”
“Tunisia”
“Uganda”
“Uruguay”
“Ynys Manaw”
“Ynysoedd Cayman”
“Ynysoedd Falkland”
“Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno”
“Ynysoedd Prydeinig y Wyryf”
“Ynysoedd Turks a Caicos”.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 4.25 p.m. ar 29 Hydref 2021